Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd

Betws Road
Betws
Pen-y-bont ar Ogwr
CF32 8TB

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Gymraeg Calon y Cymoedd |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 Ysgol Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | d/b |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 193 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 147 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 20 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 24.0% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 9.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 6.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2021 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 04/03/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 09/06/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae’r pennaeth ac arweinwyr eraill yn arwain yr ysgol yn effeithiol ac yn annog staff a disgyblion i roi o’u gorau ar bob achlysur. Maent bob amser yn canolbwyntio ar wella lles a dysgu’r holl ddisgyblion. Dros y blynyddoedd diwethaf, maent wedi gwella ymddygiad, presenoldeb a meddylfryd disgyblion fel eu bod mewn lle da i ddysgu. Mae hyn wedi cael effaith bositif iawn ar agweddau’r rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at ddod i’r ysgol, bod yn barod i ddysgu tra yno, a gwneud cynnydd da. Mae Dosbarth Pabi, sef y ganolfan adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion sydd ar y sbectrwm awtistig, yn rhan greiddiol o fywyd yr ysgol. Mae’r oedolion yno yn ofalgar iawn o’r disgyblion ac yn eu helpu i wneud cynnydd cadarn, yn arbennig yn eu medrau cymdeithasol ac addysgol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn falch o fod yn rhan o’r ysgol. Mae bron bob un yn teimlo’n ddiogel yno ac yn ystyried bod oedolion yn eu parchu ac yn eu trin yn deg.

Mae’r cwricwlwm yn ddiddorol, yn ystyried syniadau disgyblion am yr hyn maent am ei ddysgu, ac yn eu helpu i ddysgu am eu hardal leol, Cymru a’r byd ehangach. Mae gan athrawon a chynorthwywyr berthynas ddysgu iach â disgyblion, sy’n eu galluogi i wneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn, yn arbennig wrth siarad Cymraeg. Maent yn ymateb yn effeithiol i waith disgyblion, sy’n eu helpu i ddeall beth maent yn ei wneud yn dda a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella’u gwaith. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf ym mron bob agwedd o’r cwricwlwm. Er hyn, ychydig sy’n ysgrifennu’n gywir yn y Gymraeg, yn arbennig ar frig yr ysgol, a’r lleiafrif sy’n cymryd balchder yng nghyflwyniad eu gwaith ac yn cofnodi’n daclus.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Gwella cywirdeb ysgrifennu Cymraeg disgyblion, yn arbennig ar frig yr ysgol

A2. Sicrhau bod disgyblion yn cyflwyno’u gwaith yn daclus

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae'r pennaeth ac arweinwyr eraill yn arwain yr ysgol yn effeithiol ac yn gosod a chyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer y staff, disgyblion a nhw eu hunain. Maent yn gosod cyfeiriad strategol effeithiol a chadarn i'r ysgol gan ddatblygu diwylliant cefnogol, ac ethos cartrefol a chynhwysol, sy'n canolbwyntio'n llwyddiannus ar wella lles a dysgu'r holl ddisgyblion.

Un o nodweddion gorau'r ysgol yw'r ffordd mae arweinwyr wedi gwella ymddygiad, presenoldeb a meddylfryd disgyblion fel eu bod mewn lle da i ddysgu. Maent wedi sefydlu gweithdrefnau llwyddiannus i gefnogi unigolion bregus sy'n cael anhawster dod i'r ysgol yn ddyddiol a'u helpu i setlo yn eu dosbarthiadau.

### Ciplun: Cefnogaeth effeithiol i hyrwyddo lles a pharodrwydd disgyblion i ddod i'r ysgol yn rheolaidd ac i fod yn barod i ddysgu

Mae disgyblion bregus yn cael cyfle i fynychu'r Hwb Hafan ar ddechrau'r dydd. Mae hon yn ystafell ddiogel a chroesawgar sy'n eu galluogi i setlo a pharatoi'n feddyliol at weithgareddau'r dydd. Yn ogystal, mae staff ar gael drwy'r dydd i gefnogi ac ailymgysylltu â'r disgyblion hyn i sicrhau eu bod yn hapus ac yn barod i barhau â'u dysgu.

Mae gweithdrefnau'r ysgol i sicrhau bod disgyblion yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd a phrydlon yn llwyddiannus iawn. O ganlyniad, mae cyfradd presenoldeb disgyblion wedi codi'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae hyn hefyd wedi cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at ddysgu ac wedi eu galluogi i wneud cynnydd da mewn llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol. Mae hyn yn cynnwys y rheini y mae tlodi'n cael effaith andwyol arnynt a'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn y brif ffrwd, ac yn nosbarth Pabi, y ganolfan adnoddau dysgu ar gyfer disgyblion sydd ag anhwylder sbectrwm awtistig.

Creodd arweinwyr werthoedd ar gyfer yr ysgol mewn partneriaeth â disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni. Mae'r gwerthoedd hyn yn glir ac yn seiliedig ar yr egwyddor: 'Pob un yn cyfri, pob un yn cyflawni', a hynny mewn amgylchedd Cymreig, ysbrydoledig a chynhwysol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn parchu'r rhain a hefyd yn cydymffurfio'n gyson â rheolau'r ysgol, sef: 'Byddwch barod, byddwch ddiogel, byddwch barchus.' O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda, yn ymfalchïo yn eu hysgol ac yn ymateb yn briodol i'r disgwyliadau uchel sydd gan y staff ohonynt o ran ymddygiad, lles a dysgu. Mae bron bob un yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn ystyried eu bod yn cael eu parchu a'u trin yn deg.

Mae disgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau ar nifer o bwyllgorau llais y disgybl yn gydwybodol. Mae hyn yn eu galluogi i ddylanwadu'n uniongyrchol ar fywyd a gwaith yr ysgol. Er hyn, maent yn tueddu i ddibynnu gormod ar oedolion i arwain y pwyllgorau hyn.

Trwy olrhain eu cynnydd yn rheolaidd, mae athrawon yn adnabod anghenion disgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag ADY, yn dda. Maent yn cydweithio â chynorthwywyr i sicrhau eu bod yn cynnig y cymorth ychwanegol gorau i'r rheini sydd ei angen er mwyn eu herio'n gyson i wneud cynnydd da. Mae athrawon a chynorthwywyr yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi dysgu disgyblion, gan feithrin ymhellach eu hagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dyfalbarhau'n dda i gwblhau tasgau ac yn magu hyder fel dysgwyr annibynnol.

Mae disgyblion a staff Dosbarth Pabi yn rhan greiddiol o fywyd yr ysgol. Mae staff yr uned hon yn darparu addysg o safon uchel i bob disgybl sydd yn eu gofal. Maent yn llwyr ymwybodol o'u hanghenion ac yn teilwra'u strategaethau addysgu at ddibenion unigol bob un yn llwyddiannus. Mae pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu cyfnod yn y dosbarth, yn enwedig yn eu medrau cyfathrebu, rhifedd a'u medrau cymdeithasol.

Mae athrawon a chynorthwywyr yn cydweithio'n llwyddiannus i ddatblygu perthnasoedd gwaith cadarnhaol â'r disgyblion, gan greu ethos dysgu cyffrous, sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn, yn arbennig wrth gaffael yr iaith Gymraeg. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn barod am y camau nesaf yn eu dysgu trwy drefnu gweithgareddau pontio cadarn ac effeithiol iddynt wrth newid rhwng dosbarth neu gyfnod dysgu.

Mae athrawon yn cyflwyno cwricwlwm cynhwysfawr a diddorol i'r holl ddisgyblion, gan gynnwys y rheini sy'n mynychu dosbarth Pabi. Mae'r gweithgareddau'n  cael eu cynllunio'n drefnus i ddatblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol disgyblion yn llwyddiannus dros gyfnod. Mae cyfleoedd diddorol i ddisgyblion ddysgu am hanes a threftadaeth ddiwylliannol ac ieithyddol eu hardal leol, Cymru, a'r byd ehangach. Er enghraifft, mae disgyblion ar frig yr ysgol yn cymharu eu bywyd nhw â bywyd brodorion ym Mhatagonia. Rhoddir sylw cyson a chreiddiol i weithgareddau i ddatblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol, ddiwylliannol a chreadigol disgyblion yn llwyddiannus trwy amrywiol weithgareddau.

Mae athrawon yn ymateb yn bwrpasol i waith disgyblion ac yn addasu'r ddarpariaeth yn unol â hynny. Mae hyn yn eu helpu i ddeall eu cryfderau eu hunain a'r meysydd mae angen iddynt eu gwella, ac yn eu cynorthwyo'n effeithiol i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu mwynhad ac agweddau cadarn at ddarllen. Erbyn cyrraedd brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf, nid yn unig yn ddarllenwyr hyderus yn y ddwy iaith, ond hefyd yn mwynhau darllen, ac yn defnyddio'u medrau i ddod o hyd i wybodaeth o wahanol ffynonellau. Mae medrau ysgrifennu Saesneg y rhan fwyaf yn datblygu'n dda. Fodd bynnag, dim ond ychydig sy'n

ysgrifennu gyda chywirdeb priodol yn y Gymraeg, yn arbennig ar frig yr ysgol, a'r lleiafrif sy'n cymryd balchder yng nghyflwyniad eu gwaith ac yn cofnodi'n daclus. Mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau mathemategol a digidol sy'n mynd i'r afael yn dda ag anghenion disgyblion. O ganlyniad, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol a digidol, ac maent yn eu cymhwyso'n briodol mewn gwahanol agweddau o'r cwricwlwm. Trwy'r ystod eang o gyfleoedd cyfoethog a gânt, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau cerddorol, creadigol a chelfyddydol.

Trwy ddefnyddio gweithdrefnau monitro effeithiol, mae arweinwyr yn adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella ac yn ystyried deilliannau'r rhain i bennu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Maent yn cynllunio cyfleoedd dysgu proffesiynol defnyddiol i staff, sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau gwella ac yn cael effaith gadarnhaol ar les a dysgu disgyblion. Er enghraifft, mae arweinwyr wedi canolbwyntio'n ddiweddar ar hyfforddi staff i ddefnyddio amrywiol ddulliau i addysgu mathemateg a darllen. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau disgyblion yn y meysydd hyn. Mae arweinwyr hefyd yn hyrwyddo blaenoriaethau cenedlaethol fel gwella addysgu, diwygio ADY, dathlu Cymreictod, a mynd i'r afael ag effaith tlodi yn hynod effeithiol.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o'u rolau fel cyfeillion beirniadol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth glir o'r hyn mae'r ysgol yn ei wneud yn dda a'r materion sydd angen eu gwella. Maent yn rheoli adnoddau'r ysgol yn gydwybodol er mwyn sicrhau'r effaith orau ar ddisgyblion.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli'r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion. Er hyn, rhagdybir y bydd gan yr ysgol ddiffyg ariannol ar ddiwedd y flwyddyn hon ac maent yn cydweithio gyda swyddogion yr awdurdod lleol i geisio'i leihau.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/08/2025